

❖ Y BUGEILIAID

Y Beibl Cymraeg Newydd a ddefnyddiaf bob Sul, heblaw am y Suliau cyn y Nadolig. Bryd hynny, byddaf yn darllen o'r 'hen gyfieithiad'. Dywed hwnnw am y doethion: 'Ac wedi geni'r Iesu ym Methlehem Jwdea, yn nyddiau Herod frenin, wele, doethion a ddaethant o'r dwyrain i Jerwsalem.' Mwy cyfarwydd yw'r geiriau am y bugeiliaid: 'Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes, ac yn gwylid eu praidd liw nos.' Mae darllen a chlywed y geiriau hyn yn dwyn atgofion i mi am sawl Nadolig o'r goffennol.

Mae hanes geni'r Arglwydd Iesu yn hawdd i'w ddeall a'i ddilyn yn Efengyl Luc. Yr Ymerodraeth Rufeinig oedd yn teyrnasu, a bu i Augustus Cesar 'drethu'r holl fyd'. Digwyddodd y trethiad hwn gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria.

Gorfodwyd i Joseff deithio i Fethlehem 'i'w drethu gyda Mair, yr hon a ddyweddiadid yn wraig iddo, yr hon oedd yn feichiog.' Ganwyd yr Arglwydd Iesu ym Methlehem, a chafodd ei rwymo mewn cadachau a'i ddodi yn y preseb. Dyna gychwyn syfrdanol wrth i'r baban hwn ddod i'r byd. Mae eisoes yn cofleidio tlodi, gwrthodiad a gwendid – a daw'r tri pheth hyn yn rhan o'r drefn ryfedd iddo ddod yn Waredwr y byd. T. Arfon Williams sy'n canu:

Y gân am wyrth y geni,
am greu ym Methlem Grist
y Gair a fyn gywiro'r
hen dro yn Eden drist,
y Gair sy'n codi'r gwirion
o'i fedd i fyny'n fyw,
y Gair sy'n llawn o gariad
y Tad, o gariad Duw.

Dyma ddechrau gwardigaeth i'r byd pan ddaeth Duw atom ym mherson ei Fab, Iesu Grist, 'ac a drigodd yn ein plith ni, (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad,) yn llawn gras a gwirionedd' (Ioan 1:14).

Yn union wedi geni'r Arglwydd Iesu, daw lliaws o angylion i ddweud y newyddion da wrth fugeiliaid oedd yn 'gwylid eu praidd liw nos'. Wrth iddynt groesawu'r newyddion da hwn, aethant ar eu hunion i Fethlehem. Wedi iddynt ganfod y baban, adroddasant y cyfan a ddigwyddodd iddynt, gan foliannu a gogoneddu Duw 'am yr holl bethau a glywsent ac a welsent, fel y dywedasant wrthynt'.

Mae'r bugeiliaid hyn, fel amryw eraill yn yr Efengylau, yn dangos eu bod yn derbyn gwaith gras Duw yn ei Fab. Dychwelant adref yn llawen am fod Gwardwr wedi dod i'r byd yn y baban hwn: 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.' Mae yma neges i bob un ohonom ni hefyd, sef gwahoddiad i ddod a chyflwyno'n hunain i'r Arglwydd Iesu a derbyn yr hyn sydd ganddo ar ein cyfer, sef bywyd a hwnnw'n fywyd tragwyddol. Yng ngeiriau Mynyddog:

Clywch ei lais, holl gyrrau'r ddaear,
dewch ato ef;
syllwch ar ei wenau hawddgar,
dewch ato ef;
cewch, ond derbyn ei ymgeledd,
nerth i ddringo o bob llygredd,
a chewch goron yn y diwedd,
dewch ato ef.

Geraint Hughes